

Adolygiad Llenyddol

Sylwer os gwelwch yn dda bod y gwaith yma eisoes wedi ei gyflwyno i Turnitin.

Cyflwyno'r testun

Yn ganolog i'r ymchwil mae Seibiau Syniad (SS). Caiff hyn ei gydnabod (Joyce-Gibbons, 2017) fel digwyddiad lle ymyrrai athro ar waith annibynnol i ymgysylltu'r dosbarth cyfan gyda chymorth. Gellir ei ystyried yn rhan o 'blychau offer' athrawon (Shulman, 1986, tud.10); hynny ydy gwybodaeth strategaethol sy'n ymateb i'r hyn digwyddai yn y dosbarth. Ategir Kollar a Fischer (2013), y dylai'r SS weithredu fel sgrïpt ddynamig yn lle ymyrraeth ddi-nod.

Sylwch bod angen
cyflwyno rhywbeth
yn llawn (yma)
cyn defnyddio'r
acronym (yma).

Caiff SS ei hystyried fel un strategaeth o fewn casgliad o strategaethau 'asesu ar gyfer dysgu' (Gipps, 1994) - dulliau amrywiol sydd yn galluogi addysgwyr a dysgwyr ynghyd i asesu cynnydd. Fel modd o asesu ffurfiannol, galluogir athrawon i dynnu sylw'r disgyblion i gamau cymerir i gyflawni nod. Wrth wneud hynny; creir darlun clir o ba grwpiau neu unigolion sydd angen cymorth penodol (Black & William, 1998).

Yn erbyn y strategaeth hon, dadleuir mai ymyrraeth negyddol yw'r SS; un a gall amharu ar ddysgu cydweithredol ac annibyniaeth dysgwyr ifanc (Gibbons, 2017, p. 13). Ategai Beadle (2012) hyn. Er bod rhinwedd addysgeg gan y dull, mae ymchwil yn dangos y gall cyflwyniad a diweddglo traddodiadol cael effaith fwy ar gyflawniad a dealltwriaeth y dasg. Cefnogir y farn gyda phwyslais pwysigrwydd dysgu "dialogic" - lle ystyrir llais y plentyn fel un canolog i'r dysgu (Fisher, 2007; Alexander, 2004). Yng Nghymru, hyrwyddir y syniad gyda chyflwyniad proffiliau'r Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2017). Pwysleisir datblygiad sgiliau cymdeithasol a chydweithredol disgyblion trwy'r cysyniad o 'chwarae gweithredol' (Llywodraeth Cymru, 2010), ac integreiddiad 'llais y plentyn' o fewn cynlluniau'r athro a bywyd ehangach yr ysgol (Estyn, 2016). Dylanwadwyd hefyd gan erthygl 12 hawliau'r plentyn (United Nations, 2010; Llywodraeth Cymru, 2013) sy'n datgan y dylai plant cael dweud dros bob agwedd o'u bywydau.

Cyfeiriad tuag at
dogfennau
perthnasol.

O safbwynt ieithyddol, cyfeirir yn aml i 'meini prawf llwyddiant' gyda'r acronym 'WILF' yn y Saesneg, h.y. "What I'm Looking For" (Grigg, 2015, p. 276). Er un gafaelgar yw hi, mae'r safbwynt adroddol yr acronym (person cyntaf, yr athro) yn awgrymog, neu efallai'n arwyddocaol o'r broblem sy'n ei thanategu (Black & William, 1998). Awgrymir disgwyliad o ddysgwyr goddefol gan yr addysgwr, deiliad sy'n cyflawni'r hyn mae'r athro yn ei osod iddynt, yn lle pennu MPLL eu hunain (Clarke, 1998). Perthynai'r damcaniaeth addysgol hon i addysgu 'didactig' a 'chalk and talk' yr ymddygiadwyr sydd yn ymhlygu bod plant yn 'dudalennau wag' a llenwir â gwybodaeth (Skinner, 1978), neu cyflyrir i ymateb (Pavlov, 1927). Ystyrir yn erbyn cwricwlwm newydd Cymru a ddatblygid ar sail pedwar diben newydd. Dau ohonynt yw: "dysgwyr uchelgeisiol, galluog" a "chyfranwyr mentrus, creadigol" (Donaldson, 2015, p. 29).

Sylwad critigol

Astudiaeth

Gwers

Cefndir

Dull ysgrifenedig
ffurfiol

Taflen arsylwi

Cyfngiadau'r
dull

Gwybodaeth am
y plant achos

Mewn degawdau diweddar mae'r sector addysg ryngwladol wedi benthyg y syniad Japaneaidd o ymchwil 'gweithredol' i gasglu data ansoddol (Dudley, 2015; Burns, 1999): Astudiaeth Gwers. Allforiwyd y dechneg hon oherwydd ei effaith gysylltiol ar lwyddiant disgyblion yn Japan (Stigler & Hiebert, 1999; OECD, 2015). Rhan nodweddiadol o'r rhain yw arsylwad ar un gweithrediad addysgol dros gyfres o wersi, a'r effeithiau canlynol ar ddysgu'r disgyblion.

Codir cwestiynau am ffocws yr arsylwr wrth gasglu data ansoddol. Ar egwyddor Maxwell (2010) lle honnwyd na ddylid arsylwyr da rhwystro eu hunain i arsylwi'r dysgwyr yn unig, tybir mai'r un nodwedd sy'n tynnu oddi ar brif ffocws yr astudiaeth (Becker, 1990). Gellir arwain at feirniadaeth yr addysgwr - rhywbeth a argymhellwyd peidio ei wneud (Dudley, 2015). Er penderfynwyd cyrchu data ansoddol, wrth ystyried nod yr ymchwil a'r llenyddiaeth bresennol ar daflenni gwirio (Burns, 1999; Creswell, 2014), roedd yn glir bod angen mesur dau newidyn penodol yn ôl gosodiad yr ymchwil: ymddygiad a chyflawniad. Penderfynwyd ar daflenni gwirio i gofnodi'r data mewn modd strwythuredig, gan ei fod wedi ei gategoreiddio i benawdau penodol gallai lleihau'r posibilrwydd o arsylwad goddrychol. Cynhwyswyd blychau testun ar gyfer arsylwadau pellach er rhyddid yr arsylwr. (Dudley, 2015).

Cyfngiadau posib y dull yng nghyd-destun y gwaith hwn yw'r diffyg gwersi dilynol y gall ymchwilwyr arsylwi ar newidynnau arfaethedig. Mae'r gallu i adfyfrio yn gyflym i fireinio'r dull yn ddibynol ar gyfres o wersi dilynol yn hanfodol i ymchwil effeithiol (Robinson et al., 2009, Schön, 1983). Er y cyfngiadau, anelwyd at gadw'r newidynnau i'w lleiafswm i sicrhau canlyniadau dibynadwy.

Seiliwyd yr astudiaeth ar dri phlentyn achos, yn unol â dull yr Astudiaeth Gwers a argymellwyd gan Dudley (2015, p.2). I sicrhau data cynrychioladwy gall cael ei gyffredinoli (Leung, 2015), ystyriwyd galluoedd a rhyw y plant yn eu dewisiad, ynghyd â gwybodaeth storiol yr athro ar natur y plant wrth ymwneud ag amgylchiadau anarferol. Ynghyd â thaflen adfyfrio'r athro, teimlwyd bod y dull yn un effeithiol i gweu data storiol i'r ffenomenon addysgol a astudiwyd, a thybiwyd gellir helpu creu synnwyr o'r canlyniadau (Cresswell, 2014). Gwelir cyfngiad posib ar gynrychioliad y data. Er deimlwyd y gall rheoli maint y sampl, oedrannau a gallu'r plant (Creswell, 2014), awgrymir byddai anghydbwysedd anochel mewn rhyw'r plant yn creu data sgiw na fyddai'n gynrychioladol yn ôl dibenion yr ymchwil (Leung, 2015). Ymgeisir ei osgoi wrth gydbwyso'r dewis rhywiol dros y tri arsylwad.

Graddfa Ymddygiadol [Atodiad 3]

I arsylwi ymddygiad plant, dewiswyd 'offerynnau'r arsylwad' (observation instruments) (Creswell, 2014, p.172) a geir ei asesu ar raddfa (Aitken, 1996). Asesir 'gwrando gweithredol, cyswllt llygaid, siarad aflonyddgar, ymrwymiad i'r dasg ac aflonyddu (corfforol)'. Safonir yr agweddau ymddygiadol a arsylwyd ar raddfa 'maint' o 1 i 5, lle fyddai 1 yn gyfatebol ag maint 'isel iawn', 2 = isel, 3 = canolig, 4 = uchel a 5 = uchel iawn.

Trafodaeth o'r gwersi

Cynlluniwyd gwers iaith Saesneg ar Gristnogaeth [Atodiad 9] gyda defnydd TGCh. Cydweithiodd y disgyblion yn anghysbell ar liniaduron i greu 'Google Slides'. Gwelwyd o'r CG [Atodiad 17] bod sawl elfen i'r MPLL a gyflwynwyd i'r plant yn ystod y wers. Er cysondeb, penderfynwyd symleiddio a blaenoriaethu'r MPLL i dri chategori craidd:

1. Strwythuro (teitlau, is-deitlau, animeiddiadau a blychau testun)
2. Delweddau
3. Nodweddion yr Eglwys

Cyfeirio at yr arsylwad – amserau penodol yn y wers

Defnydd da o ddyfyniadau llafar

Cyfeiriadau tuag at atodiadau

Cydnabyddiaeth-nad yw bob amser yn bosib i gefnogi

Gwelir yn glir o daflenni MPLL [Atodiadau 10 a 12] fe gyflawnwyd gan Blant 1, 2 a 3 erbyn SS1. Wrth ystyried lefel y plant, disgwyliwyd hwn i raddau. Gwelir ymddygiad y plant ar ddechrau'r wers [Atodiad 9] wedi'i sgorio'n gadarnhaol gan yr arsylwr ar y raddfa feintiol (sgôr o 4 wedi'i phriodoli ar gyfer 'gwrando gweithredol'). Er nad oes modd cymharu â disgyblion o alluoedd neu rywiau gwahanol (sy'n golygu na ellir cyffredinol'i'r canlyniadau'n fawr iawn), deallir mai plant sydd fel arfer yn dangos lefelau isel iawn o ymddygiad aflonyddgar yw'r rhain. Adlewyrchwyd yn y nodiadau maes yr arsylwr [Atodiad 14] sy'n dweud am Blentyn 1, "9:41yb: Edrych fel ei bod hi'n hyderus ac yn deall yn iawn sut i ddefnyddio'r technoleg ...Yn amlwg yn deall... disgwyliadau ohoni" [sic]. Gwelir o amser SS1 (9.45yb) bod dealltwriaeth gadarn gan y disgybl cyn ymyrraeth gan yr athro.

Wrth adfyfrio, disgwylir y byddai'r plant yn cyflawni'r nod a dilyn cyfarwyddiadau'r athro heb ymddygiad aflonyddgar. Fodd bynnag, wrth gyrraedd SS1 am 9.45yb, gwelir cyflawniad llwyr y MPLL gan y tair ohonynt [Atodiad 10], gyda gostyngiad yn agweddau ymddygiadol y plant. Gostyngir gwrando weithredol Plentyn 2 o 4 pwynt i 3 [Atodiad 11], â'r sylw, "...deipio tra bod yr athrawes yn siarad". Awgrymwyd bod y plentyn yn awyddus i orffen y dasg a llai awyddus i ymgysylltu ag ymyrraeth yr athro i'r un graddau a oedd ar ddechrau'r wers. Caiff y syniad hwn ei gefnogi gyda chynyddiad yr un plentyn yn yr agwedd ymddygiadol 'ymrwymiad i'r dasg', o 3 yn y cyflwyniad [Atodiad 9] i 4 erbyn SS1 [Atodiad 11].

Mynegwyd barn glir o'r SS gan bob disgybl. O'r rheini â gallu uchel (Plentyn 3) esboniwyd buddiannau'r strategaeth yn glir [Llinell 51-54]; ei fod yn atgoffa o'r hyn sydd angen ei wneud ac yn ennyn ffocws. I'r rheini o alluoedd is (Plentyn 4 a Phlentyn 5) [Llinell 54-58], disgrifiwyd fel rhywbeth sy'n eu hysgogi i hunan-wirio eu gwaith yn erbyn y MPLL. Cytunir mai dwy saib sydd orau ganddynt [Llinell 80-86].

Yn y daflen adborth (anghyflawn) [Atodiad 18], nid oes adfyfrio penodol yn digwydd ar y SS, ac felly nid oes modd gwirio barn y plant yn erbyn ei phrofiad hi. Fodd bynnag, soniwyd am sut ellir gwella'r wers trwy amseru a rhoi cyflwyniad byrrach i alluogi'r plant i orffen y gwaith - rhywbeth a atseiniwyd gan y plant yn y cyfweliad [Atodiad 35, Llinell 80-86].

Canfyddiadau

Cyflawniad Plant gallu uchel

Yn wir i'r damcaniaethau llenyddol (Joyce-Gibbons, 2017), awgrymwyd fod plant o alluoedd uchel yn teimlo bod ymyrraeth yr athro ar adegau cyson yn ei diflasu ac yn torri ei 'llif' gwaith naturiol (Clarke, 1998). Wrth adfyfrio, cyffredinolir mai dyma'r plant fydd yn gallu canolbwyntio am y cyfnodau hiraf yn y dosbarth ac felly ni theimlant yr angen am y fath saib.

Nifer y Seibiau

Er y gwahaniaeth mewn barn rhwng plant o wahanol alluoedd, consensws y grwpiau ffocws oedd bod un neu ddwy saib yn gymorth iddynt. Er nad oedd plant uchel eu galluoedd yn Astudiaeth Gwers 2 yn ffeindio'n ddefnyddiol iddynt erbyn SS2, deallent eu defnydd i blant arall y dosbarth, a chydabyddir bod y sefyllfa anarferol wedi cael effaith ar ei ymddygiad, ac yntau cyflawniad y dasg. Cefnogir damcaniaethau 'cyflyrol' yr ymddygiadwyr yma (Skinner, 1978; Pavlov, 1927).

Amseru

Mae'n bosib caiff amseru'r wers (gan gynnwys y SS) effaith ar effeithiolrwydd y strategaeth. Er welwyd diffyg cyflawniad y MPLL yn SS1-Astudiaeth Gwers 2 [Atodiad 22], roedd amseru cynnar y saib yn galluogi'r plant i allu crynhoi ei broblemau i gwestiynau, a'u holi i'r athro. Yn wrthwynebol i hynny, gall saib hwyr codi pryder y plant o'i anallu i gwblhau'r dasg oherwydd cam-amseru, fel tystiwyd yng nghyfweliad Astudiaeth Gwers 1 [Atodiad 35, Llinell 64-66]. Fel rhagdybiwyd, roedd cynnwys y wers yn cael effaith o'r un graddau, roedd gwers 2 a 3 yn llai llwyddiannus achos bod sawl cwestiwn neu dasg o fewn y wers gyfan. Roedd gwers 1 yn llwyddiannus oherwydd bod cyswllt clir i sgil blaenorol a bod y plant yn gweithio ar un dasg trwy gydol y wers.

Cyfyngiadau'r astudiaeth

Wrth adfyfrio, cryfderau'r fethodoleg oedd ei gallu i weu data ansoddol a storïol (sylwadau) i asesiad y MPLL. Roedd hyn yn cynnig modd i'r ymchwilydd dadansoddi a deall y data yn gyflym (er gwaethaf y bylchau data) ac felly sicrhawyd dibynadwyedd a dilysrwydd ymchwiliol gan y dulliau arfaethedig (Golafshani, 2003; Maxwell, 2010; Leung, 2015; Guba & Lincoln, 1994).

Cyfyngiadau gwaethaf y fethodoleg oedd y diffyg amser i baratoi, treialu a mireinio'r dulliau cyn ac ar ôl y gwersi yn ôl y 'cyfres' o wersi a awgrymwyd gan Dudley (2015). Oherwydd cyfyngiadau amser yr ymchwilydd a arweiniodd y prosiect, doedd dim digon o ffocws ar dechneg arsylwi. Cwblhawyd y taflenni heb ddigon o gysondeb. Nid oedd pob darn o ddata wedi cael ei chyflawni a'i gyfathrebu'n glir, ac roedd anhawster cyfathrebu yng nghyfnodau olaf y gwaith yn meddwl nad oedd y data wedi ei ryddhau i'r tîm cyfan.

Er nad oedd dewisiad cwbl gytbwys yn amrywiaeth rhyw a galluoedd, roedd digon o amrywiaeth a manylder yn y data i greu set gynrychiadol. Er na ellir cyffredinolli'r data i'r graddau lle gellir tynnu casgliadau anwrthbrofol am ei 'maint effaith' (Hattie, 2015), ymddangoswyd canfyddiadau clir a gweithredadwy ynglŷn â pha blant dylid gweithredu'r fath strategaeth gydag yn y dyfodol.

Argymhellion

Oherwydd diffyg nifer geiriau, ysgrifennodd y myfyrwr yma'r argymhellion mewn pwyntiau bwled. Nid yw hyn yn arferol, a byddwn yn eich hannog i ysgrifennu mewn brawddegau llawn.

Esiamp! o argymhellion ar ffurf paragraffau. Gwaith person arall yw hyn, felly nid yw'n cysylltu gyda'r gwaith uchod o ran thema. Sylwer hefyd bod yr awdur wedi defnyddio ffurf wahanol o ran iaith.

Ystyriwch a yw'r paragraff terfynol yma'n ei wneud yn amlwg beth oedd y cwestiwn ymchwil.

Mireinio'r fethodoleg a pheilota'r dulliau arfaethedig er mwyn cysondeb:

- Treialu'r astudiaeth dros gyfres mwy o wersi i ddatblygu dibynadwyedd y data
- Defnyddio'r un cynllun wers, gyda newidiadau arfaethedig i newidynnau penodol (Dudley, 2015); Brookfield, 2017) i ddatblygu dilysrwydd y data
- Cyfathrebu a chytuno'r dulliau union yn gynharach gyda'r tîm ymchwil i sicrhau cyflawniad a rhannu'r dulliau, a chanlyniadau gall cael eu cyffredinoli

O ystyried y gwaith ymchwil hwn, credaf fod y defnydd cynyddol o TGCh mewn lleoliadau ysgol yn hanfodol a bydd angen i lefel cymwyseddau digidol athrawon wella er mwyn cadw i fyny â lefelau llythrennedd digidol y plant. Mae plant yn dod yn fwy cymwys gyda TGCh ar gam cynharach yn rheolaidd. Yn ôl Flewitt (2014), mae plant ifanc yn dod yn fwyfwy ymrwymedig i gyfryngau digidol ac yn gyfranogwyr i ystod eang o arferion digidol. Mae Ofcom (2015) yn cytuno â'r awdur hwn drwy ddatgan bod tri o bob pedwar plentyn ifanc yn byw mewn tŷ sydd â mynediad at gyfryngau digidol-tabled, cyfrifiadur neu gonsol gemau.

Y brif neges o'r ymchwil yw bod plant yn fwy awyddus ac yn fwy parod i ddysgu mewn ffordd ddigidol na'u cyfoedion sy'n oedolion. Maent yn teimlo'n fwy cymwys wrth ddefnyddio adnoddau digidol ac yn canfod eu bod yn gallu cael gafael ar fwy o wybodaeth ac ehangu eu dealltwriaeth o'r gwersi gan ddefnyddio cyfryngau digidol. Fodd bynnag, mae rôl yr athro yn dal yn hanfodol i'w harwain i'r cyfeiriad cywir a dysgu sut i gadw'n ddiogel yn y byd ar-lein. Bydd yr addysgu, yn y blynyddoedd i ddod, yn symud i oes ddigidol newydd gyda phrofion yn cael eu cymryd ar-lein yn hytrach na'n ysgrifenedig ar bapur. Mae cyfarfodydd a chynadleddau hyfforddi'n cael eu cynnal ar-lein, nodiadau a llythyrau i rieni yn cael eu hanfon drwy'r e-bost a hysbysfyrddau i fod yn fwy ecogyfeillgar. Mae'r ymchwil hwn wedi rhoi cipolwg gwych i mi ar y dysgu digidol posibl a sut mae'n effeithio ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein systemau addysgol modern.

